(Logo'r Awdurdod Lleol
yn mynd yma)

<<Y Preswylydd/Deiliad>>
<<CyfeiriadPost1>>
<<CyfeiriadPost2>>
<<CyfeiriadPost3>>
<<CyfeiriadPost4>>
<<CodPost>>

<<Council>>
<<Cyfeiriad1>>
<<Cyfeiriad2>>
<<CodPost>>
<<E-bost>>
<<Gwefan>

<<Dyddiad>>

Ffurflen cofrestru pleidleisiwr yn ddienw

Efallai y gallwch gofrestru i bleidleisio'n ddienw os ydych yn pryderu y gallai cael eich enw a'ch cyfeiriad ar y gofrestr etholiadol effeithio ar eich diogelwch, neu ddiogelwch rhywun yn yr un cartref â chi.

Bydd angen i chi:

- Egluro pam y byddai eich diogelwch (neu ddiogelwch rhywun yn yr un cartref â chi) mewn perygl pe bai eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol
- Cyflwyno dogfen llys neu ardystiad gan berson awdurdodedig i ategu eich cais (rhagor o wybodaeth ar dudalennau 6-7).

Sut mae cofrestru'n ddienw yn gweithio

Os ydych wedi cofrestru i bleidleisio'n ddienw, ni fydd eich enw na'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol ac ni fyddwch yn cael eich cynnwys ar unrhyw ffurflenni cofrestru a anfonir i'ch cyfeiriad. Bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol yn cysylltu â chi ar wahân. Byddwch yn dal i allu pleidleisio.

Mae cofrestriadau dienw yn para am flwyddyn. Dylech gadw copïau o orchmynion llys neu ardystiadau ar gyfer unrhyw geisiadau dilynol.

Sut i gofrestru i bleidleisio

1. Llenwch y ffurflen cofrestru pleidleisiwr hon.
2. Sicrhewch eich bod yn llofnodi'r datganiad.
3. Cyflwynwch dystiolaeth i ategu eich cais (rhagor o wybodaeth ar dudalennau 6-7).
4. Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau a'r dystiolaeth berthnasol atom yn y cyfeiriad a nodir uchod.
5. Problemau gyda'r ffurflen? Cysylltwch â ni os oes angen unrhyw help arnoch i ddeall neu gwblhau'r ffurflen hon – neu os oes angen i chi gael y ffurflen hon mewn print bras neu fformat arall.

Cofrestrwch i bleidleisio cyn gynted â phosibl, neu efallai y bydd yn rhy hwyr i bleidleisio yn yr etholiad nesaf.

Yn gywir

<<Enw ac ati>>

Ffurflen cofrestru pleidleisiwr yn ddienw

Cofrestru i bleidleisio

Cofrestru i bleidleisio

Gallwch gofrestru i bleidleisio os ydych yn preswylio (yn byw fel arfer) yng Nghymru ac yn 14 oed neu'n hŷn. Ni fyddwch yn gallu pleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol nac yn etholiadau'r Senedd nes eich bod yn 16 oed. Ni fyddwch yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU nac yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh) nes eich bod yn 18 oed. Mae'n rhaid i chi hefyd fod naill ai yn:

- dinesydd Prydeinig neu Wyddelig
- dinesydd y Gymanwlad (gan gynnwys Malta a Chyprus) sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros yno, neu sydd heb angen caniatâd
- gwladolyn tramor sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu sydd heb angen caniatâd
- dinesydd yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae caniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros yno (a elwir hefyd yn Ganiatâd i Ddod i Mewn neu Ganiatâd i Aros), yn cyfeirio at statws mewnfudo cyfreithlon.

Cofrestru'n ddienw

Ydych chi am gael eich cynnwys ar y gofrestr etholiadol yn ddienw? Ticiwch. ☐ Nac ydw ☐ Ydw

Os ydych, dywedwch wrthym pam eich bod am gael eich cynnwys yn ddienw. Er enghraifft, oherwydd byddai eich diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun sy'n byw yn yr un cartref â chi mewn perygl.

.....

.....

Mae'n rhaid i chi ddarparu dogfen llys neu ardystiad i ategu eich cais (rhagor o wybodaeth ar dudalennau 6-7).

1 Eich enw a'ch cyfeiriad

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Eich cyfeiriad

.....

.....

Cod post

Dyma'r cyfeiriad lle rydych chi'n byw, ond ni fydd eich enw na'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

Cyfeiriad gohebiaeth (os yw'n wahanol)

.....

.....

Cod post

Dim ond er mwyn cysylltu â chi ynglŷn â'ch cofrestriad y byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn.

Ydych chi'n byw mewn cyfeiriad arall hefyd? Ticiwch. ☐ Nac ydw ☐ Ydw

(Cod bar yn mynd yma)

2 Eich cenedligrwydd (rhagor o wybodaeth ar dudalen 8)

Nodwch eich cenedligrwydd. Os oes gennych fwy nag un cenedligrwydd, nodwch bob un ohonynt.

(Ddim yn gwybod eich cenedligrwydd? Gweler adran 11).

3 Eich statws mewnfudo (rhagor o wybodaeth ar dudalen 8)

Cwblhewch yr adran hon dim ond os ydych yn ddinesydd yr UE o un o'r gwledydd canlynol:
• Yr Almaen • Awstria • Bwlgaria • Croatia • Yr Eidal • Estonia • Y Ffindir • Ffrainc • Gweriniaeth Tsiec • Gwlad Belg • Gwlad Groeg • Hwngari • Yr Iseldiroedd • Latfia • Lithwania • Romania • Slofacia • Slofenia • Sweden

Ers 31 Rhagfyr 2020, a ydych chi wedi cael caniatâd yn barhaus i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros ynddynt, neu heb fod angen caniatâd?

Atebwch 'Ydw' os oedd un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol i chi ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020 a'i fod wedi parhau heb doriad:

- statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog o dan gynllun preswylio'n sefydlog i ddinasyddion yr UE, ac eithrio os gwnaethoch gais fel aelod o'r teulu sy'n ymuno
- caniatâd amhenodol neu ganiatâd cyfyngedig i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, neu i aros ynddynt
- dinesydd y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ond wedi'i eithrio rhag rheolaethau mewnfudo.

Os mai 'Ydw' yw eich ateb i'r cwestiwn a'ch bod wedi bod yn absennol o'r DU am gyfnod o amser a ganiateir o dan delerau eich statws mewnfudo, yna dylech dicio'r opsiwn 'Ydw' o hyd.

Ticiwch. ☐ Nac ydw ☐ Ydw

(Cod bar yn mynd yma)

4 Wedi newid eich enw? (rhagor o wybodaeth ar dudalen 8)

Nodwch eich enw blaenorol mwyaf diweddar (dewisol).

Nodwch ar ba ddyddiad y gwnaethoch newid eich enw (dewisol).

D D M M B B B B

5 Ydych chi wedi symud tŷ yn ystod y 12 mis diwethaf?

Ticiwch. ☐ Nac ydw ☐ Ydw

Os ydych, nodwch unrhyw gyfeiriad blaenorol lle rydych wedi byw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu efallai y bydd eich cais yn destun oedi.

Cod post

Os oedd y cyfeiriad hwn dramor, a oeddech wedi cofrestru yn y DU fel pleidleisiwr tramor?

Ticiwch. ☐ Nac oeddwn ☐ Oeddwn

6 Eich dyddiad geni (rhagor o wybodaeth ar dudalen 8)

D D M M B B B B

Os nad ydych yn gwybod eich dyddiad geni, ticiwch os ydych yn:

14-15 oed ☐ 16-17 oed ☐ 18-75 oed ☐ 76 oed neu'n hŷn ☐

(Ddim yn gwybod eich dyddiad geni? Gweler adran 11).

7 Eich rhif Yswiriant Gwladol (os ydych yn 16 oed neu'n hŷn)

Gallwch ei weld ar eich slip cyflog neu ar lythyrau swyddogol ynglŷn â threth, pensiynau neu fudd-daliadau.

☐ Ticiwch os ydych o dan 16 oed.

(Ddim yn gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol? Gweler adran 11).

8 Manylion cyswllt

Mae darparu rif ffôn neu gyfeiriad e-bost yn ein helpu i gysylltu â chi'n rhwydd ac yn gyflym ynghylch eich cais.

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

9 Pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Dylid gadael yr adran hon yn wag os ydych yn bwriadu pleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio.

I bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, mae'n rhaid i chi gwblhau cais ar wahân ar gyfer pleidlais absennol. Ticiwch isod sut hoffech bleidleisio a byddwn yn anfon gwybodaeth atoch am bleidlais absennol.

Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth ac i ofyn am ffurflen gais.

Os nad ydych yn siŵr pa dystiolaeth ategol y gallwch ddarparu, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 1.

☐ Drwy'r post ☐ Drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar eich rhan)

10 Y gofrestr agored (rhagor o wybodaeth ar dudalen 8)

Os ydych wedi'ch cynnwys ar y gofrestr agored yn ddienw, ni fydd unrhyw wybodaeth amdanoch yn ymddangos ar y gofrestr agored.

(Cod bar yn mynd yma)

11 Ddim yn gwybod eich cenedligrwydd, eich dyddiad geni neu'ch rhif Yswiriant Gwladol? Dywedwch pam

Os na allwch ddarparu'r manylion hyn, gallwn ofyn i chi am dystiolaeth arall cyn prosesu eich cais.

12 Datganiad

Rwy'n byw yn y cyfeiriad hwn ar hyn o bryd. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir ac mae'r dystiolaeth i ategu fy nghais yn ddilys. Os yw'r cais hwn yn cynnwys tystiolaeth sy'n ymwneud â rhywun sy'n byw yn yr un cartref â mi, mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r unigolyn hwnnw hefyd yn ddilys, hyd eithaf fy ngwybodaeth.

Rwy'n deall bod nodi gwybodaeth anwir yn fwriadol ar y ffurflen hon yn drosedd ac os caf fy euogfarnu y gallwn gael fy ngharcharu am hyd at chwe mis a/neu wynebu dirwy anghyfyngedig.

Llofnod

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

Pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio

Efallai y bydd angen i chi ddangos ID ffotograffig yn eich gorsaf bleidleisio i fwrw eich pleidlais. Os ydych wedi cofrestru i bleidleisio'n ddienw, yr unig math o ID ffotograffig y gallwch ei ddefnyddio yw Dogfen Etholwr Dienw. Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth ac i ofyn am ffurflen gais.

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 1.

(Cod bar yn mynd yma)

Tystiolaeth ategol

Mae'n rhaid i chi ddarparu dogfen llys neu ardystiad fel tystiolaeth y byddai eich diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun yn eich cartref mewn perygl pe byddai eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr.

Ticiwch yr un sy'n berthnasol:

☐ Rwyf wedi amgáu dogfen llys gymwys sy'n sicrhau fy mod i yn cael fy niogelu (gweler adran A isod)

☐ Rwyf wedi amgáu dogfen llys gymwys sy'n sicrhau bod rhywun yn fy nghartref yn cael ei ddiogelu (gweler adran A isod) a phrawf (e.e. trwydded yrru ffotograffig neu fil cyfleustod) fy mod yn byw yn yr un cartref â hwy

☐ Rwyf wedi amgáu ardystiad gan swyddog cymwys sy'n ardystio y byddai fy niogelwch mewn perygl (gweler Adran B a ffurflen ardystio dros y dudalen)

☐ Rwyf wedi amgáu ardystiad gan swyddog cymwys sy'n ardystio y byddai diogelwch rhywun arall yn yr un cartref â mi mewn perygl (gweler adran B a'r ffurflen ardystio drosodd) a phrawf (e.e. trwydded yrru ffotograffig neu fil cyfleustod) fy mod yn byw yn yr un cartref â hwy.

Gan mai am flwyddyn yn unig y mae cofrestriadau dienw yn ddilys, dylech gadw copïau o orchmynion llys neu gopi o ardystiadau ar gyfer gwneud ceisiadau dilynol.

Os nad ydych yn siŵr pa dystiolaeth ategol y gallwch ei chyflwyno, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 1 y ffurflen hon.

A Dogfennau llys cymwys

Dogfennau llys cymwys y gallwch eu defnyddio i ategu eich cais:

- gwaharddeb i atal unigolyn rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfystyr ag aflonyddu a roddir o dan Adran 3 o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 neu o dan erthygl 5 o Orchymyn Diogelu rhag Aflonyddu (gogledd Iwerddon) 1997
- gwaharddeb a roddir o dan Adran 3A(2) o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997
- gorchymyn atal a wneir o dan Adran 5(1) o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, neu o dan erthygl 7 o Orchymyn Diogelu rhag Aflonyddu (Gogledd Iwerddon) 1997
- gorchymyn atal a wneir yn dilyn rhyddfarn o dan Adran 5A(1) o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, neu o dan erthygl 7(A)1 o Orchymyn Diogelu rhag Aflonyddu (Gogledd Iwerddon) 1997
- gorchymyn rhag aflonyddu, ataleb neu ataleb interim a wneir o dan Adran 8 neu 8A o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997
- gorchymyn rhag aflonyddu a wneir o dan Adran 234A(2) o Ddeddf Gweithdrefn Troseddol (yr Alban) 1995
- gorchymyn peidio ag ymyrryd a wneir o dan Adran 42(2) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996, neu o dan erthygl 20(2) o Orchymyn Cartrefi Teuluol a Thrais Domestig (Gogledd Iwerddon) 1998
- ataleb briodasol o fewn ystyr Adran 14 o Ddeddf Cartrefi Priodasol (Amddiffyn y Teulu) (yr Alban) 1981
- ataleb briodasol o fewn ystyr Adran 1981 o Ddeddf Cartrefi Priodasol (Amddiffyn y Teulu) (yr Alban) 1981
- ataleb berthnasol o fewn ystyr Adran 113 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004
- ataleb y pennwyd ei bod yn ataleb cam-drin domestig o fewn ystyr Adran 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig (yr Alban) 2011
- unrhyw ataleb sy'n cynnwys y pŵer i arestio a wneir o dan Adran 1 o Ddeddf Amddiffyn rhag Camdriniaeth (yr Alban) 2001
- gorchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod neu orchymyn amddiffyn interim rhag priodas dan orfod a wneir o dan Ran 4A o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996, neu o dan Adran 2, a pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007, neu o dan Adran 1 neu Adran 5 o Ddeddf Priodas dan Orfod ac ati (Amddiffyn ac Awdurdodaeth) (yr Alban) 2011
- gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig a wneir o dan adran 28 o Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010 neu adran 97, a pharagraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015
- gorchymyn amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod a wneir o dan adran 5A, a pharagraffau 1 neu 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003.

Nid oes unrhyw ddogfennau llys eraill yn dderbyniol.

Mae'n rhaid i'r ddogfen llys fod yn weithredol ar ddyddiad eich cais i gofrestru'n ddienw.

(Cod bar yn mynd yma)

B Swyddogion cymwys

Dim ond y sawl a nodir isod all ardystio cais.

Ni ellir dirprwyo ardystiad i unigolyn ar lefel is o fewn sefydliad. Yr unig eithriad yw lle mae'r ymgeisydd o dan 16 oed ar y dyddiad y caiff y cais ei wneud. Yn yr achos hynny, gall unrhyw gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru awdurdodi'n ysgrifenedig i unigolyn arall ardystio cais. Lle mae hyn yn berthnasol, mae rhaid i awdurdodiad gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ategu'r ardystiad.

- swyddog heddlu ar reng arolygydd neu reng uwch mewn unrhyw heddlu yng Nghymru a Lloegr
- swyddog heddlu ar reng arolygydd neu reng uwch yng Ngwasanaeth Heddlu'r Alban
- swyddog heddlu ar reng arolygydd neu reng uwch yng Ngwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon
- Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Diogelwch
- Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Asiantaeth Troseddau Genedlaethol
- unrhyw gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn Lloegr o fewn ystyr adran 6(A1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970
- unrhyw gyfarwyddwr gwasanaethau plant yn Lloegr o fewn ystyr adran 18 o Ddeddf Plant 2004
- unrhyw gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o fewn ystyr adran 144 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- unrhyw brif swyddog gwaith cymdeithasol yn yr Alban o fewn ystyr adran 3 o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) 1968
- unrhyw gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydlwyd o dan erthygl 16 o Orchymyn Gwasanaethau Cymdeithasol Iechyd a Phersonol (Gogledd Iwerddon) 1972
- unrhyw gyfarwyddwr gweithredol gwaith cymdeithasol Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a sefydlwyd o dan erthygl 10 o Orchymyn Gwasanaethau Cymdeithasol Iechyd a Phersonol (Gogledd Iwerddon) 1991
- unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig
- unrhyw nyrs neu fydwraig gofrestredig
- unrhyw berson sy'n rheoli lloches. Ystyr "lloches" yw llety â rhaglen gynlluniedig o gymorth therapiwtig ac ymarferol i'r sawl sydd wedi dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu drais domestig.

Ffurflen ardystio

I'w chwblhau gan swyddog cymwys yn unig
(gall y swyddog cymwys ddefnyddio ffurflen a ddarperir gan ei sefydliad ei hun).

Enw llawn yr ymgeisydd

Enw(au) pobl eraill sy'n byw yn yr un cartref â'r ymgeisydd y bydd yr ardystiad yn gymwys iddynt (os yw'n berthnasol).

Rwy'n ardystio y byddai diogelwch yr ymgeisydd, ac unrhyw berson[au] a nodir uchod sy'n byw yn yr un cartref, mewn perygl pe bai'r gofrestr yn cynnwys enw neu gyfeiriad cymwys yr ymgeisydd.

Bydd fy ardystiad yn weithredol am (ticiwch un blwch yn unig):

☐ Yr uchafswm cyfnod (5 mlynedd)

☐ Cyfnod arall (o leiaf blwyddyn)

Enw llawn yr ardystiwr

Teitl swydd (fel swyddog cymwys)

Heddlu / awdurdod lleol / corff cymwys arall

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Llofnod

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

Os nad ydych yn siŵr pa dystiolaeth ategol y gallwch ddarparu, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar dudalen 1.

(Cod bar yn mynd yma)

Eich cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo

Mae caniatâd i ddod i mewn i'r DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw (a elwir hefyd yn Ganiatâd i Ddod i Mewn neu Ganiatâd i Aros), neu i aros ynddynt, yn cyfeirio at statws mewnfudo cyfreithlon.

Efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol arnom ynghylch eich cenedligrwydd neu efallai y byddwn yn gwirio eich cenedligrwydd neu'ch statws mewnfudo yn erbyn cofnodion y llywodraeth.

Mae Adran 3 'Eich statws mewnfudo' yn pennu a ydych yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn unig. Nid yw'n pennu a ydych yn gymwys i gofrestru i bleidleisio, nac i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd neu etholiadau cynghorau lleol yng Nghymru. Os yw'r adran hon yn berthnasol i chi, efallai y byddwn yn gwirio eich cenedligrwydd hanesyddol neu'ch statws mewnfudo hanesyddol yn erbyn cofnodion y llywodraeth.

Wedi newid eich enw?

Er enghraifft, efallai eich bod wedi priodi ac wedi newid eich enw. Nid oes rhaid i chi roi manylion i ni am newid eich enw ond bydd yn ein helpu i wybod pwy ydych chi. Os na roddir y wybodaeth hon, efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol ychwanegol.

Eich dyddiad geni

Os nad ydych yn gwybod eich dyddiad geni, nodwch y dyddiad rydych yn ei roi ar ddogfennau swyddogol (er enghraifft, eich pasbort neu'ch trwydded yrru). Mae eich dyddiad geni yn ein helpu i wybod pwy ydych chi a chadarnhau p'un a ydych yn gymwys i bleidleisio, a gellir ei ddefnyddio i'ch galw i wasanaeth rheithgor.

Y gofrestr agored

Mae dwy gofrestr. Pam? Gan ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir hefyd yn gofrestr wedi'i golygu).

Mae'r **gofrestr etholiadol** yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, fel sicrhau mai dim ond pobl gymwys a all bleidleisio. Caiff ei defnyddio hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir yn y gyfraith, megis:

- canfod trosedd (e.e. twyll)
- galw pobl i wasanaeth rheithgor
- gwirio ceisiadau am gredyd.

Mae'r **gofrestr agored** yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gellir ei phrynu gan unrhyw berson, cwmni neu sefydliad. Er enghraifft, caiff ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau i gadarnhau manylion enw a chyfeiriad. Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn, bydd eich enw a'ch cyfeiriad yn cael eu cynnwys yn y gofrestr agored heblaw eich bod yn gofyn iddynt gael eu tynnu. Nid yw tynnu eich manylion oddi ar y gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio.

Os ydych wedi'ch cynnwys ar y gofrestr agored yn ddienw, ni fydd unrhyw wybodaeth amdanoch yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol na'r gofrestr agored.
Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ddwy gofrestr a sut y gellir eu defnyddio yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

Datganiad preifatrwydd

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolwr. Ei sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth bersonol yn y cais hwn yw bod y prosesu'n hanfodol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os gwnaethoch ddewis cael eich eithrio o'r gofrestr agored, gall eich enw a'ch cyfeiriad ond cael eu defnyddio at ddibenion etholiadol a dibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith (gan gynnwys eu paru â ffynonellau data eraill i gefnogi'r gofrestr etholiadol). Mae'r gyfraith yn caniatáu i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu democrataidd (gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, ac asiantiaid), canfod trosedd, gwysio rheithgor, a gwirio hunaniaeth ar gyfer ceisiadau am gredyd.

Os na wnaethoch ddewis cael eich eithrio o'r gofrestr agored, gall unrhyw un brynu eich enw a'ch cyfeiriad at lawer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

Cyfeiriwch at yr hysbysiad cyfrinachedd yn <<Gwefan>> neu cysylltwch â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i ofyn am gopi.
«Enw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol» «Cyfeiriad y Swyddog Cofrestru Etholiadol» «Rhif ffôn y Swyddog Cofrestru Etholiadol»

Problemau gyda'r ffurflen?

Cysylltwch â ni os oes angen unrhyw help arnoch i ddeall neu gwblhau'r ffurflen hon – neu i ofyn amdani mewn print bras neu fformat arall. Mae ein manylion cyswllt ar dudalen 1.